INCWM, GWARIANT A STAFF

Mae'r adran yma'n disgrifio sut y caiff gweithgareddau a Swyddfa Tywysog Cymru a Duges Cernyw eu hariannu, ac mae'n amlinellu cyfrifoldebau eu staff uwch. Mae costau staff a'r rhan fwyaf o'r gwariant ar weithgareddau swyddogol a gwaith elusennol yn cael eu talu o'r incwm blynyddol a gaiff Ei Uchelder Brenhinol trwy Ddugaeth Cernyw.

CYFRIF INCWM A GWARIANT

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2007** £000oedd	**2006** £000oedd
Incwm ac ariannu		
Dugaeth Cernyw	15,174	14,067
Grantiau Cymorth	2,026	1,584
Adrannau'r llywodraeth	428	489
Cyfanswm incwm ac ariannu	**17,628**	**16,140**
Gwariant		
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	7,260	6,587
Grantiau Cymorth:		
Swyddfa Llundain a'r cartref swyddogol	461	355
Teithio swyddogol (awyrennau a threnau)	1,485	1,149
Cefnogaeth cyfathrebu	80	80
	2,026	**1,584**
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol	428	489
Gwariant swyddogol	9,714	8,660
Gweddill ar ôl y costau swyddogol	**7,914**	**7,480**
Treth ar y gweddill	3,434	3,296
Gwariant answyddogol	2,614	2,181
Gwarged gweithredu	**1,866**	**2,003**
Gwariant cyfalaf llai dibrisio, ad-daliadau ar fenthyciadau a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	(1,671)	(1,867)
Gwarged arian net	**195**	**136**

INCWM AC ARIANNU

	£miliwn
Dugaeth Cernyw	**15.174**

Dugaeth Cernyw

Fel sy'n cael ei esbonio ar dudalennau 6 a 7, daw incwm preifat Tywysog Cymru o Ddugaeth Cernyw, stad o eiddo amaethyddol, masnachol a phreswylio yn Ne-orllewin Lloegr yn bennaf. Mae portffolio o fuddsoddiadau ariannol gan y Ddugaeth hefyd.

Mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis defnyddio cyfran fawr o'i incwm o Ddugaeth Cernyw i dalu costau ei waith cyhoeddus ac elusennol ef a Duges Cernyw. Twf yn yr incwm o'r portffolio o eiddo masnachol a buddsoddiadau ariannol oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd o 7.9% yng ngwarged y Ddugaeth yn 2006-07, er bod cynnydd sylweddol yn y gwariant ar waith atgyweirio a chynnal a chadw'n gwrthbwyso'r twf yn rhannol.

Caiff cyfrifon blynyddol Dugaeth Cernyw eu cyhoeddi gan *The Stationery Office* (TSO) ac mae'n bosib archebu copi drwy'r post: TSO, Blwch Post 29, Duke Street, Norwich NR3 LGN; ar-lein yn www.tso.co.uk/bookshop; dros y ffôn: 0870 600 5522. Maen nhw ar gael hefyd o'r wefan www.duchyofcornwall.org.

	£miliwn
Grantiau Cymorth	**2.026**

Y Senedd sy'n rhoi'r arian i dalu costau swyddogol y Frenhines fel Pennaeth y Wladwriaeth neu waith i'w chefnogi, yn gyfnewid am ildio'r refeniw o Stad y Goron. Daw'r arian yma mewn tair ffordd: (i) Rhestr Sifil i'r Frenhines a Blwydd-dal Seneddol i Ddug Caeredin, (ii) Grantiau Cymorth, a (iii) costau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol gan Adrannau'r Llywodraeth. Nid yw Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n cael arian o'r Rhestr Sifil na Blwydd-dal Seneddol, ond mae'r Grantiau Cymorth i Aelwyd y Frenhines yn cael eu defnyddio'n rhannol i gynnal eu gweithgareddau swyddogol.

Mae tri Grant Cymorth: Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo, sy'n talu costau cynnal y cartrefi swyddogol a'r swyddfeydd mae Aelodau o'r Teulu Brenhinol a'u staff yn eu defnyddio; Grant Cymorth y Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau, sy'n talu costau'r teithiau swyddogol mae Aelodau o'r Teulu Brenhinol a'u staff yn eu gwneud mewn awyrennau a threnau; a'r Grant Cymorth Cyfathrebu a Gwybodaeth Frenhinol, sydd gryn dipyn yn llai na'r ddau arall ac sy'n talu rhai o'r costau cyfathrebu swyddogol ar ran Aelodau o'r Teulu Brenhinol.

Caiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar gyfer y tri Grant Cymorth. Mae copïau i'w cael ar www.royal.gov.uk neu mae'n bosib cael copïau gan Ddirprwy Drysorydd y Frenhines, Palas Buckingham, Llundain SW1A 1AA.

Nid yw Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n cael arian o'r Rhestr Sifil, ond mae'r Grantiau Cymorth i Aelwyd y Frenhines yn cael eu defnyddio'n rhannol i gynnal eu gweithgareddau swyddogol.

	£miliwn
Adrannau'r Llywodraeth	**0.428**

O ran Tywysog Cymru a Duges Cernyw, mae Adrannau'r Llywodraeth yn talu'r gwariant ar gostau staff sydd wedi'u secondio o'r Gwasanaethau Arfog (fe wariodd y Weinyddiaeth Amddiffyn £220,829 yn 2006-07) a rhai o gostau ymweliadau tramor swyddogol sy'n cael eu gwneud ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (fe wariodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad £207,158 yn 2006-07).

GWARIANT

	£miliwn
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	**7.260**

Cafodd dros 60% o incwm ar ôl treth Tywysog Cymru o Ddugaeth Cernyw ei wario ar ddyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol. O'r £7.260 miliwn, aeth £4.8 miliwn, neu 66 y cant, i dalu costau'r staff. Mae dadansoddiad o'r gwariant swyddogol ar dudalen 53.

Mae Tywysog Cymru'n cyflogi 136.5 o staff sy'n cyfateb i amser llawn. O'r rhain, mae 106.5 yn cynorthwyo'u Huchelderau Brenhinol, yn cynnwys Tywysog William a Thywysog Harry, wrth iddyn nhw ymgymryd â dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol, ac mae 30 yn staff personol neu'n staff garddio a ffermio.

Mae'r tabl ar dudalen 48 yn rhestru'r staff swyddogol yn ôl adran yr Aelwyd. Mae cyfanswm costau'r naill adran a'r llall, yn cynnwys cyflogau a gwariant arall, yn yr un tabl.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: y swyddfa a'r cartref swyddogol yn Llundain	**0.461**

Clarence House yw swyddfa a chartref swyddogol Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry yn Llundain. Mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ciniawau, derbyniadau a chyfarfodydd swyddogol, ac mae'n gweithredu hefyd fel swyddfeydd ar gyfer staff swyddogol Eu Huchelderau Brenhinol. Mae'r prif ystafelloedd ar lawr gwaelod Clarence House ar agor i'r cyhoedd rhwng mis Awst a mis Hydref bob blwyddyn, er eu bod nhw ar gau am rai dyddiau yn ystod y cyfnod yma tra bo'r Tywysog a'r Dduges yn eu cartref. Cafodd dros 2,500 o bobl eu croesawu'n swyddogol i Clarence House yn ystod y flwyddyn a thalodd 29,000 o ymwelwyr i fynd i mewn i weld y tŷ. Mae gan yr Aelwyd swyddfeydd hefyd mewn rhannau eraill o Balas St James's. Y Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo yw'r arian blynyddol sy'n talu costau cynnal Clarence House a'r swyddfeydd eraill ym Mhalas St James's.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: Teithio swyddogol mewn awyrennau a threnau	**1.485**

Rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru fel Etifedd yr Orsedd yw, gyda Duges Cernyw, i ddod â phobl at ei gilydd yng ngwahanol rannau'r DU, gweithredu fel canolbwynt i fywyd y genedl ac i gynrychioli'r wlad dramor. Mae hyn yn golygu tipyn o deithio, ac mae angen ei wneud mewn ffordd effeithlon a diogel sy'n cwrdd â'r gofynion cyflwyno. Yn 2006-07, teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol dros 52,268 o filltiroedd wrth fynd i a dod yn ôl o ymrwymiadau swyddogol yn y DU a thramor. Mae'r ffigur yma'n cynnwys 31,500 o filltiroedd o deithio mewn gwledydd tramor. Cost y teithiau yma yn 2006-07, heb gynnwys teithio mewn ceir, oedd £1.485 filiwn, a Grant Cymorth y Teithio Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau sy'n talu'r costau.

Mae'r ffigur yma'n cynnwys dim ond y costau amrywiol ar gyfer teithiau'n defnyddio Sgwadron 32, Hofrennydd Y Frenhines a'r Trên Brenhinol. Gwneir hyn am fod costau awyrennau adenydd sefydlog a threnau'n digwydd p'un a ydyn nhw'n cael eu defnyddio neu beidio, a dydyn nhw ddim yn dod yn sgil unrhyw deithiau penodol. Mae esboniad llawn yn Adroddiad Blynyddol 2006-07 Grantiau Cymorth y Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau (*Grant-in-Aid for Royal Travel by Air and Rail Annual Report 2006-07*) – mae'r adroddiad ar gael ar www.royal.gov.uk.

Yn 2006-07, teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol dros 52,268 o filltiroedd wrth fynd i a dod yn ôl o ymrwymiadau swyddogol yn y DU a thramor. Mae'r ffigur yma'n cynnwys 31,500 o filltiroedd o deithio mewn gwledydd tramor.

Mae Swyddfa Tywysog Cymru'n mynd i wariant wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglen gyfathrebu gyffredinol, cynnal Swyddfa'r Wasg, diweddaru a datblygu ei gwefan a chynnig gwybodaeth gyffredinol ac addysgol i'r wasg a'r cyhoedd.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: Cymorth Cyfathrebu	**0.080**

Mae Swyddfa Tywysog Cymru'n mynd i wariant wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglen gyfathrebu gyffredinol, cynnal Swyddfa'r Wasg, diweddaru a datblygu ei gwefan, cynnig gwybodaeth gyffredinol ac addysgol i'r wasg a'r cyhoedd, a chynnig Swyddogion y Wasg i helpu'r cyfryngau yn ystod ymrwymiadau ac ymweliadau swyddogol. Tywysog Cymru sy'n talu'r rhan fwyaf o'r costau yma'n bersonol. Ond y Grant Cymorth Cyfathrebu a Gwybodaeth sy'n draddodiadol wedi talu'r costau a ddaw yn sgil helpu'r cyfryngau mewn ymrwymiadau ar draws y wlad; cymorth cyfathrebu yw'r enw ar y gwaith yma.

	£miliwn
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol	**0.428**

Mae'r Gwastrodion (un llawn amser ac un rhan amser) a dau o'r pedwar Swyddog Negesau wedi'u secondio o'r Lluoedd Arfog i helpu Tywysog Cymru a Duges Cernyw wrth iddyn nhw gyflawni dyletswyddau swyddogol. Mae esboniad o rôl y Gwastrodion ar dudalen 49. Y gost i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2006-07 oedd £220,829.

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn talu costau Ymweliadau Swyddogol Tywysog Cymru a Duges Cernyw â gwledydd tramor (ac eithrio costau teithio a ddaw o'r Grant Cymorth Teithio Brenhinol). Yn 2006-07, aeth Ei Uchelder Brenhinol ar deithiau swyddogol i Bacistan, pedair o wledydd y Gwlff (Kuwait, Qatar, Bahrain a'r Emiraethau Arabaidd Unedig), Sierra Leone, Nigeria ac Unol Daleithiau America. Mae'r ymweliadau yma'n cael eu gwneud ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, a'u nod yw atgyfnerthu a datblygu'r berthynas dda sydd gan y DU â gwledydd ar draws y byd. Costau'r ymweliadau yma i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn 2006-07 oedd £207,158.

	£miliwn
Treth	**3.434**

Mae Tywysog Cymru'n talu treth incwm yn wirfoddol ar y gwarged o Ddugaeth Cernyw. Y rheolau treth incwm arferol sy'n berthnasol, ar y raddfa bresennol o 40 y cant. Fel unrhyw unigolyn preifat, mae hefyd yn talu treth incwm ar bob incwm arall a threth enillion cyfalaf. Mae'r dreth ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys TAW.

	£miliwn
Gwariant answyddogol	**2.614**

Yn ogystal â thalu am ddyletswyddau swyddogol Tywysog Cymru, Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry, ac am rai gweithgareddau elusennol ac atebolrwydd y Tywysog i dalu treth incwm, mae'r incwm o Ddugaeth Cernyw hefyd yn talu costau gwariant answyddogol Tywysog Cymru a'i deulu.

Mae gwariant answyddogol yn cynnwys costau cyflogi 12.5 o staff sy'n cyfateb i amser llawn, yn cynnwys ysgrifenyddion personol a staff yr adrannau cyfrifon a phersonél, pen-cogyddion, gweision a staff ar gyfer Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry. Mae hefyd 17.5 o staff sy'n cyfateb i amser llawn yn gweithio ar y stad a'r ffermydd, ac yn y gerddi a'r stablau. Mae gwariant answyddogol hefyd yn cynnwys cyfran briodol o gostau Highgrove House a Birkhall, a chostau cynnal stad a gerddi Highgrove, a hon yw'r un eitem fwyaf yn y gwariant personol. Ased elusennol gwerthfawr yw'r ardd, ac mae dros 20,000 o bobl yn ymweld â hi am ddim bob blwyddyn.

Mae canlyniadau Home Farm, fferm organig y Tywysog ar Stad Highgrove, wedi'u cynnwys dan y pennawd yma. Fferm weithio yw hon a gafodd ei sefydlu gan Dywysog Cymru i ddangos y buddion masnachol ac amgylcheddol sy'n dod o ffermio organig. Mae tua 2,000 o bobl yn ymweld â'r fferm bob blwyddyn i ddysgu am ffermio organig.

STAFF

Fel yr oedden nhw ar 31 Mawrth 2007, ac ar gyfer y flwyddyn hyd at yr un dyddiad

	Staff sy'n cyfateb i amser llawn	Costau Swyddogol £000oedd
Prif Ysgrifennydd Preifat a Chynorthwywyr	**3.5**	
Swyddfa'r Ysgrifennydd Preifat		
Ysgrifennydd Preifat	1.0	
Dirprwy Ysgrifenyddion Preifat ac Ysgrifenyddion Preifat Cynorthwyol	7.2	
Swyddfa Tywysog William a Thywysog Harry	1.9	
Gwastrodion	1.5	
Cyd-drefnyddion Rhaglenni a Theithio	4.0	
Staff Ymchwilio a Gweinyddol	10.4	
Gohebiaeth	3.6	
	33.1	**1,944**
Cyllid, Personél a Gweinyddu		
Trysorydd a Chynorthwyydd	2.0	
Cyllid a Rhestru eiddo	8.5	
Personél	5.7	
Archifau	3.0	
Rheolwr Systemau TG	1.0	
	20.2	**1,684**
Cyfathrebu		
Ysgrifennydd Cyfathrebu a Chynorthwyydd	2.0	
Ysgrifennydd y Wasg	1.0	
Ysgrifenyddion Cynorthwyol y Wasg	2.0	
Swyddogion y Wasg a Golygydd y Wefan	4.0	
	9.0	**689**
Meistr Adran yr Aelwyd		
Meistr yr Aelwyd a Chynorthwywyr	3.0	
Bwtleriaid	2.0	
Pen-cogyddion a phorthorion y gegin	6.2	
Swyddogion negesau	5.0	
Derbynfa	2.1	
Gyrwyr	2.5	
Rheolwyr Tŷ a Staff Cadw Tŷ	6.8	
Gweision a Gwisgwyr	1.5	
Staff Ystafell y Berllan (*Orchard Room*)	0.7	
Garddwyr a Gweithwyr Stad	8.0	
	37.8	**2,943**
Elusennau'r Tywysog		
Cyfarwyddwr a Chynorthwywyr	3.0	
Dirprwy Gyfarwyddwr	0.6	
Pennaeth Datblygu	1.0	
Cynghorwr	0.8	
Dadansoddwr	1.0	
	6.4	-
Cyfanswm y staff swyddogol ar 31 Mawrth 2007	**106.5**	
Cyfanswm costau'r dyletswyddau swyddogol a'r gweithgareddau elusennol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2007		**7,260**

Yn ogystal â'r rhain, mae Sefydliad Elusennau'r Tywysog yn cyflogi pedwar o bobl dros dro i weithio ar broject *Accounting for Sustainability* y Tywysog.

Swyddfeydd

Mae prif swyddfa Tywysog Cymru a Duges Cernyw a swyddfa Tywysog William a Thywysog Harry, lle mae'r rhan fwyaf o'u staff yn gweithio, yn Clarence House yng nghanol Llundain. Mae rhai ystafelloedd eraill ym Mhalas St James's sydd gerllaw. Y Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo (cyfeiriwch at dudalen 46) sy'n talu costau cynnal adeiladwaith Clarence House, yn ogystal â chostau'r gwasanaethau a'r llinellau ffôn sefydlog (ond nid yw'n cynnwys costau eraill swyddfa Llundain). Mae swyddfeydd hefyd ar gyfer staff swyddogol sy'n helpu'r Tywysog gyda'i waith yn Highgrove a Birkhall, cartrefi preifat Eu Huchelderau Brenhinol. Mae rhai o gostau Highgrove a Birkhall yn cael eu cynnwys dan y categori 'Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol', er mai dan Wariant Answyddogol y Tywysog y bydd y rhan fwyaf o gostau'r ddau gartref yma'n cael eu dosbarthu.

STAFF A THREFN Y SWYDDFA

Y Prif Ysgrifennydd Preifat

Y Prif Ysgrifennydd Preifat yw uwch aelod Aelwyd Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Mae'n gyfrifol am bob agwedd ar weithrediad yr Aelwyd ac am oruchwylio mudiadau elusennol a rhai eraill Ei Uchelder Brenhinol.

Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat

Yr Ysgrifennydd Preifat sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am redeg Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat. Mae'r Ysgrifennydd Preifat, y Dirprwy Ysgrifennydd a'r Ysgrifenyddion Preifat Cynorthwyol yn hybu a chefnogi dyletswyddau swyddogol, ymrwymiadau a gweithgareddau elusennol Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Maen nhw'n trefnu dyddiadur Eu Huchelderau Brenhinol a'u rhaglen o ymweliadau yn y wlad yma a thramor, yn trefnu sesiynau briffio, derbyniadau ac achlysuron eraill, yn gweinyddu gohebiaeth ac yn cyd-drefnu ymchwil a gwybodaeth sy'n cynorthwyo'u gwaith. Mae pob Ysgrifennydd Preifat yn gyfrifol am feysydd penodol ac am gydweithio â rhai o fudiadau'r Tywysog a'r Dduges. Mae rhestr o'r cyfrifoldebau yma, a chyfrifoldebau'r staff uwch eraill, yn yr Atodiad (ar dudalennau 54 a 55). Maen nhw hefyd yn gofalu bod Ei Uchelder Brenhinol yn cael gwybod am faterion cyfoes. Maen nhw'n cynnig gwybodaeth gefndirol iddo wrth iddo ysgrifennu llythyrau at weinidogion a phobl ddylanwadol eraill y wlad, ac wrth ddrafftio'i areithiau a'i erthyglau. Mae ymchwilwyr, cynorthwywyr personol a staff gweinyddol yn cynorthwyo'r Ysgrifenyddion Preifat, ac maen nhw'n gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn Swyddfa Ysgrifenyddion Preifat y Frenhines.

Yr Ysgrifennydd Preifat sy'n gyfrifol am Swyddfa'r Gwastrawd, a'r swyddfa honno sy'n cyd-drefnu rhaglen ymrwymiadau Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Staff Swyddfa'r Gwastrawd sy'n rheoli'r dyddiadur o ddydd i ddydd, yn gweithredu fel rhyngwyneb rhwng staff, yr heddlu a mudiadau allanol, ac yn cynllunio'r rhaglen yn y tymor hir. Mae Swyddfa'r Gwastrawd hefyd yn rheoli trefniadau logistaidd a threfniadau teithio'r ymweliadau swyddogol gartref a thramor. Fel arfer, mae amryw o deithiau tramor bob blwyddyn. Swyddog sy'n dal i wasanaethu yn y fyddin yw'r Gwastrawd, wedi'i secondio o'r Lluoedd Arfog i'r Aelwyd am tua dwy flynedd.

Bob blwyddyn, mae'r Tywysog a'r Dduges yn cael miloedd o wahoddiadau gan lawer o wahanol gyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae Eu Huchelderau Brenhinol a'u staff yn rhoi sylw manwl i bob un. Wrth drefnu'r ymweliadau bob blwyddyn, mae'r Gwastrawd yn cydweithio â'r Ysgrifenyddion Preifat, Swyddfa'r Wasg a chyrff allweddol eraill i ofalu bod y Tywysog a'r Dduges yn cynnwys dewis eang o wahanol ddiddordebau, yn cwrdd llawer o wahanol bobl ac yn mynd i gymaint o rannau'r wlad â phosib.

Mae'r Gwastrawd a'r Gwastrawd Dros Dro'n gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer materion milwrol ac amddiffyn. Mae cysylltiadau agos gan Dywysog Cymru â'r Lluoedd Arfog, nid dim ond ym Mhrydain ond yn y Gymanwlad hefyd. Mae'r Tywysog yn Llyngesydd yn y Llynges Frenhinol, Cadfridog yn y Fyddin a Phrif Farsial Awyr yn yr Awyrlu Brenhinol.

Mae gan Dywysog Cymru hefyd berthynas arbennig â 12 catrawd. Mae hefyd yn Gomodor Awyr Anrhydeddus yr Awyrlu Brenhinol yn y Fali, Prif Gomodor Rheolaeth y Llynges Frenhinol, Plymouth, Prif Gomodor Awyr Awyrlu Brenhinol Seland Newydd,

Mae'r Gwastrawd a'r Gwastrawd Dros Dro'n gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer materion milwrol ac amddiffyn. Mae cysylltiadau agos gan Dywysog Cymru â'r Lluoedd Arfog, nid dim ond ym Mhrydain ond yn y Gymanwlad hefyd.

a Phrif Gyrnol y Corfflu Arfog Awstralaidd Brenhinol, ac mae ganddo berthynas arbennig fel Prif Gyrnol wyth o gatrodau'r Gymanwlad gan weithredu fel eu Prif Gyrnol.

Mae Tywysog Cymru'n arwain Arwisgiadau ym Mhalas Buckingham bob blwyddyn (bu'n llywyddu dros chwe arwisgiad yn ystod 2006-07), ac mae hefyd yn cynrychioli'r Frenhines mewn nifer o achlysuron gwladol. Swyddfa'r Gwastrawd sy'n gyfrifol am drefniadau'r ymrwymiadau yma.

Mae Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry'n cael nifer fawr o lythyrau bob blwyddyn. Yn 2006-07, er enghraifft, cawson nhw 31,853 o lythyrau. Mae pobl o bob rhan o'r byd yn ysgrifennu at Eu Huchelderau Brenhinol, er bod y mwyafrif o'r llythyrau'n dod o'r DU.

Mae'r llythyrau'n tynnu sylw at amryw o wahanol bynciau, a materion a phynciau trafod cyfoes sy'n eu hysgogi nhw'n aml. Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gweld dewis eang o'r llythyrau, ac ysgrifennodd y Tywysog ei hun 2,134 o lythyrau yn ystod 2006-07. Ysgrifennodd Duges Cernyw 1,503 ei hun, ac ysgrifennodd y ddau 53 o lythyrau ar y cyd. Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gofalu bod yr Adran Ohebiaeth yn ateb ar eu rhan y llythyrau nad ydyn nhw eu hunain neu eu Hysgrifenyddion Preifat yn eu hateb. Lle bo hynny'n briodol, bydd yr Adran Ohebiaeth wrth ateb yn cynnwys gwybodaeth am waith elusennol, diddordebau a gweithgareddau'r Tywysog, y Dduges, Tywysog William a Thywysog Harry, ac yn anfon gwybodaeth hanesyddol neu wybodaeth arall at ysgolion a phobl ifanc. Mae Tywysog a'r Dduges hefyd yn cael nifer o geisiadau gan amryw o wahanol elusennau a mudiadau eraill am roddion neu eitemau i'w harwerthu. Yr Adran Gyllid sy'n delio â cheisiadau am roddion, tra bo'r Adran Ohebiaeth yn delio ag eitemau i'w harwerthu. Er ei bod hi'n amhosib ymateb i bob un o'r ceisiadau niferus am eitemau i'w harwerthu, mae Ei Uchelder Brenhinol yn rhoi eitemau fel lithograffau o'i luniau dyfrlliw, llyfrau wedi'u llofnodi a theithiau o erddi Highgrove. Yn 2006-07, fe gododd eitemau a roddwyd i'w harwerthu dros £180,000 at elusennau.

Swyddfa Tywysog William a Thywysog Harry

Ysgrifennydd Preifat Tywysog William a Thywysog Harry sy'n gyfrifol am redeg eu swyddfa o ddydd i ddydd, yn cynnwys trefnu eu hymrwymiadau swyddogol a'u gwaith elusennol. Mae'r swyddfa hefyd yn cynorthwyo, cynllunio a chynghori o ran gyrfaoedd milwrol y Tywysogion yn y tymor hir, ac yn delio â materion gweinyddol personol.

Cyllid, Personél a Gweinyddu

Yr Adran Cyllid, Personél a Gweinyddu sy'n gyfrifol am reoli cyllid a phersonél, systemau gwybodaeth a gweinyddu cyffredinol ar draws yr Aelwyd. Y Trysorydd sy'n arwain yr adran, gyda help y Rheolwr Ariannol a Phennaeth Personél a Gweinyddu.

Mae'r Isadran Gyllid yn rheoli'r arian drwy nifer o gyllidebau blynyddol, cyfrifon rheoli misol a chyfres o systemau a gweithdrefnau cyfrifyddu, yn arbennig wrth awdurdodi gwariant. Yr isadran sydd hefyd yn gyfrifol am ofalu cael y gwerth gorau am arian, ac mae'n cadw cofnod o roddion ac asedau Eu Huchelderau Brenhinol.

Y Trysorydd sydd â chyfrifoldeb ariannol a gweinyddol dros Sefydliad Elusennau Tywysog Cymru yn y DU a Sefydliad Elusennol UDA. Y hi hefyd sy'n gyfrifol am un o is-gwmnïau masnachu Sefydliad y DU, A. G. Carrick Limited, sy'n cael yr incwm a ddaw wrth werthu lithograffau o luniau'r Tywysog a'r breindaliadau a ddaw wrth gyhoeddi llyfrau. Mae incwm blynyddol y ddau Sefydliad dros £6 miliwn. Mae'r Trysorydd hefyd yn monitro'r agweddau ariannol ar brif elusennau'r Tywysog ac mae'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â chyhoeddi, contractau a'r gyfraith.

Mae'r Aelwyd yn ceisio cynnig amgylchedd gwaith lle y gall unigolion gyfrannu'n llawn a theimlo mor fodlon â phosib yn eu gwaith. Yr Isadran Bersonél sy'n gofalu am hyn trwy reoli recriwtio, cyflogau, hyfforddiant a datblygu gyrfaoedd, cyfathrebu mewnol a chysylltiadau â staff. Mae hefyd yn trefnu secondiadau, penodiadau cenedlaethol a rhyngwladol a lleoliadau profiad gwaith.

Mae'r llythyrau'n tynnu sylw at amryw o wahanol bynciau, a materion a phynciau trafod cyfoes sy'n eu hysgogi nhw'n aml. Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gweld dewis eang o'r llythyrau, ac ysgrifennodd y Tywysog ei hun 2,134 o lythyrau.

Fel Etifedd yr Orsedd, mae diddordeb mawr gan y cyhoedd a'r cyfryngau yng ngweithgareddau Tywysog Cymru, yn ogystal ag yn Nuges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry.

Yr Isadran Reoli Systemau Gwybodaeth ym Mhalas Buckingham sy'n trefnu a chynnal y rhan fwyaf o systemau technoleg gwybodaeth yr Aelwyd. Y Rheolwr Systemau TG sy'n gyfrifol am ofalu bod y systemau yma'n gweithio o ddydd i ddydd.

Mae tri Archifydd yn gyfrifol am reoli'r holl bapurau a'r ffeiliau sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus Tywysog Cymru er diwedd yr 1960au. Yr Uwch Archifydd sydd hefyd yn rheoli ceisiadau i'r Tywysog a'r Dduges weithredu fel Noddwr neu Lywydd mudiad, ac unrhyw faterion yn ymwneud â nawddogaethau a llywyddiaethau sy'n bod yn barod.

Cyfathrebu

Fel Etifedd yr Orsedd, mae diddordeb mawr gan y cyhoedd a'r cyfryngau yng ngweithgareddau Tywysog Cymru, yn ogystal ag yn Nuges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry. Rôl Swyddfa'r Wasg yw rhoi gwybodaeth a helpu cynulleidfa eang i ddod i ddeall gwaith a gweithgareddau Tywysog Cymru. Bydd Swyddfa'r Wasg hefyd yn trin a thrafod ymholiadau gan y cyfryngau ynglŷn â Duges Cernyw a'r ddau Dywysog. Mae hefyd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Swyddfa'r Wasg Palas Buckingham, o safbwynt agweddau cyffredinol ar y Frenhiniaeth yn ei chyfanrwydd.

Yr Ysgrifennydd Cyfathrebu sy'n gyfrifol am Swyddfa'r Wasg. Mae Ysgrifennydd y Wasg, dau Ysgrifennydd Cynorthwyol y Wasg, dau Swyddog y Wasg, Swyddog Cynorthwyol y Wasg, Golygydd y Wefan a chynorthwyydd personol i gyd yn rhan o'r adran.

Mae Swyddfa'r Wasg yn ymateb i dros 40,000 o alwadau ffôn gan y cyfryngau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol bob blwyddyn yn holi ynglŷn â phob agwedd ar waith a rôl Tywysog Cymru, Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry. Mae hefyd yn trefnu cyfleusterau ar ran y cyfryngau ar gyfer holl ymrwymiadau cyhoeddus Eu Huchelderau Brenhinol yn y DU a thramor. Ac mae'n cyhoeddi cannoedd o ddatganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, datganiadau cyhoeddus a nodiadau gweithredol bob blwyddyn.

Mae cynnal gwefan Tywysog Cymru - www.princeofwales.gov.uk - hefyd yn rhan o rôl Swyddfa'r Wasg. Yn 2006-07, cafodd y wefan ei hail-ddylunio. Ar ôl ei lansio unwaith eto, roedd yn denu cyfartaledd o 1 filiwn o argraffiadau tudalen bob mis, ac mae'n para'n adnodd poblogaidd fel lle i'r cyfryngau, ymchwilwyr a'r cyhoedd o'r DU a thramor gael gwybodaeth. Yn ogystal â'r newyddion diweddaraf am ymrwymiadau Eu Huchelderau Brenhinol, mae'r safle'n cynnig gwybodaeth am eu gwaith a'u gweithgareddau elusennol, ac areithiau diweddar, manylion hanesyddol, erthyglau a set o luniau. Mae gwybodaeth a newyddion ar y safle hefyd am Dywysog William a Thywysog Harry. Ymhlith elfennau newydd y safle ar ei newydd wedd mae cyfleuster fideo. Cafodd ffilm y lansio, sy'n portreadu diwrnod o ymrwymiadau Eu Huchelderau Brenhinol ym Mirmingham, ei gwylio bron 64,000 o weithiau yn ystod yr wythnos gyntaf yr oedd ar gael.

Adran Meistr yr Aelwyd

Meistr yr Aelwyd a'i adran sy'n gyfrifol am gartrefi, swyddfeydd a gerddi Eu Huchelderau Brenhinol, am eu staff personol ac am oruchwylio cyffredinol mewn derbyniadau ac wrth groesawu. Mae croesawu swyddogol yn rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Y llynedd, croesawodd y ddau 8,532 o westeion i Clarence House a chartrefi Brenhinol eraill. Mae'r achlysuron yma'n amrywio o groesawu gwesteion swyddogol a phobl bwysig o wledydd tramor i gynnal ciniawau a chyngherddau i ddiolch i'r rheini sy'n ymwneud ag elusennau'r Tywysog a'r Dduges. Yn 2006-07, arweiniodd Eu Huchelderau Brenhinol 75 o dderbyniadau, seminarau, ciniawau canol dydd a chiniawau nos.

Mae gofyn i'r rhan fwyaf o'r staff sy'n rheoli ac yn trefnu'r achlysuron yma fod ar ddyletswydd saith diwrnod yr wythnos, yn cynnwys y rhan fwyaf o fin nosweithiau. Maen nhw'n dilyn trefn o weithio am wythnos, gydag wythnos o seibiant yn ei dilyn. Mae costau'r staff sy'n helpu'r Tywysog a'r Dduges fel unigolion wedi'u cynnwys dan bennawd gwariant personol. Bydd bwtleriaid yn gweithredu 'ym mlaen y tŷ' ar ran Eu Huchelderau Brenhinol, gan gwrdd gwesteion, trefnu lluniaeth ysgafn a gosod ystafelloedd. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda'r rheolwyr tŷ, sy'n goruchwylio'r holl drefniadau domestig a glanhau, a gyda'r pen-

cogyddion. Wrth gynnal y derbyniadau a'r ciniawau mwy, rheolwyr digwyddiadau sy'n goruchwylio'r holl drefniadau cynllunio, gweinyddu ac arlwyo. Mae un bwtler ar ddyletswydd bob amser.

Ymhlith elfennau newydd y safle ar ei newydd wedd mae cyfleuster fideo. Cafodd ffilm y lansio, sy'n portreadu diwrnod o ymrwymiadau Eu Huchelderau Brenhinol ym Mirmingham, ei gwylio bron 64,000 o weithiau yn ystod yr wythnos gyntaf yr oedd ar gael.

Mae gan Dywysog Cymru weision a swyddogion teithio sy'n gweithio mewn parau bob yn ail wythnos. Maen nhw'n helpu'r Tywysog i wisgo'i ddillad a'i wisgoedd swyddogol, ac i roi trefn ar ei ddillad personol. Mae gan y Dduges ddau aelod o staff sy'n gwneud yr un math o waith ar ei rhan.

Mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n defnyddio'u cartref preifat yn Highgrove, ac yn arbennig Ystafell y Berllan (*the Orchard Room*) yn ei erddi, i gynnal ymrwymiadau swyddogol ac i groesawu. Cafodd Ystafell y Berllan ei dylunio a'i hadeiladu'n bwrpasol gan y Tywysog ar gyfer croesawu gwesteion swyddogol. Yn 2006-07, cafodd ei defnyddio ar gyfer 11 o dderbyniadau, seminarau a chyfarfodydd briffio ar gyfer dros 1,200 o westeion, ac mae'r holl ymwelwyr â'r ardd yn cael paned o de neu goffi yno.

Y llynedd, gwahoddodd y Tywysog a'r Dduges dros 24,000 o bobl i fynd o gwmpas gerddi Highgrove, gan orffen â lluniaeth yn Ystafell y Berllan. Yn yr haf, gall hyd at naw taith o 25 o bobl ar y tro gael eu cynnal bob diwrnod, sy'n golygu cyfanswm o ychydig dros 1,000 o deithiau'r flwyddyn. Rhyngddyn nhw, dewisodd yr ymwelwyr roi cyfanswm o £163,704 at fudiadau elusennol y Tywysog. Hefyd mae'r rheini sy'n mynd i dderbyniadau swyddogol yr haf fel arfer yn cael mynd o gwmpas y gerddi. Gan ei fod wedi ymrwymo i warchod treftadaeth naturiol Prydain, mae'r Tywysog yn defnyddio'r ardd fel lle i warchod amrywiaethau o goed, planhigion a blodau sydd dan fygythiad. Ei obaith yw y bydd ymwelwyr yn mwynhau gweld manteision rheoli tir yn naturiol a garddio organig.

Mae ymwelwyr â'r ardd yn cynnwys grwpiau elusennol a garddwyr, tra bo myfyrwyr ac ymchwilwyr garddwriaeth yn gweithio yn yr ardd drwy gydol y flwyddyn. Nid oes unrhyw dâl am y daith na'r lluniaeth, ond gall ymwelwyr brynu eitemau o Siop Highgrove sy'n rhoi ei holl elw i Sefydliad Elusennau'r Tywysog.

Mae'r Tywysog yn cyflogi tîm o arddwyr. Gan mai'r cyhoedd sy'n defnyddio'r ardd yn bennaf wrth ymweld, mae'r rhan fwyaf o gostau'r gerddi'n cael eu dosbarthu fel gwariant swyddogol (er bod incwm preifat Ei Uchelder Brenhinol yn talu costau swyddogol a chostau personol). Caiff y gweddill, sy'n debygol o ymwneud â mwynhad personol y Tywysog a'r Dduges o'r ardd, ei glustnodi fel gwariant personol. Mae Adran Meistr yr Aelwyd hefyd yn cynnwys swyddogion negesau (sy'n cynnal cyfarpar y swyddfa ac yn gyfrifol am offer swyddfa, deunydd ysgrifennu a cheir swyddfa), a derbynyddion. Mae hefyd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch a, gyda'r heddlu, am ddiogelwch.

Elusennau

Y Cyfarwyddwr Elusennau, gyda chymorth y Dirprwy, sy'n gyfrifol am reoli'r Swyddfa Elusennau. Sefydliad Elusennau'r Tywysog sy'n talu costau'r Swyddfa Elusennau.

Prif gyfrifoldeb y Swyddfa yw cynnig cefnogaeth a chyngor i elusennau Tywysog Cymru, yn arbennig yr 18 mudiad craidd, o ran materion fel rheoli corfforaethol, polisïau wrth dderbyn rhoddion a chodi arian, cynllunio, a chyfathrebu. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Swyddfa Elusennau wedi cyhoeddi set gynhwysfawr o ganllawiau gweithredu i'r holl fudiadau ei defnyddio. Mae hefyd wedi creu un ddelwedd gyfan ar eu cyfer – dan yr enw "Elusennau'r Tywysog" – a chyhoeddi dewis o ddeunyddiau sy'n esbonio'u gwaith a'u cyflawniadau.

Mae'r Swyddfa Elusennau hefyd yn hyrwyddo cysylltiadau a chydweithio rhwng yr elusennau; mae'n helpu wrth benodi cadeiryddion ac ymddiriedolwyr; ac mae'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu syniadau a mentrau newydd. Mae hefyd wedi sefydlu cwmni masnachu newydd i gynnal amryw o brojectau unwaith yn unig fel y cyngerdd "*Concert for Diana*" mae Tywysog William a Thywysog Harry'n ei drefnu er cof am eu mam, y gêm griced "*Friendship Cup*" rhwng India a Phacistan, a'r rhaglen ddogfen "*Stairway to Heaven*" sydd i'w darlledu ar y teledu. Mae cwmni arall, *Traditional Arts Limited*, wedi cael ei sefydlu i ddatblygu a gwerthu cynnyrch sydd wedi'i seilio ar gynlluniau rhai o fyfyrwyr ac alumni Ysgol y Tywysog er y Celfyddydau Traddodiadol. Mae'r Swyddfa Elusennau hefyd yn rheoli project *Accounting for Sustainability* y Tywysog.

YMWELIADAU BLYNYDDOL

Mae'r Tywysog a'r Dduges yn mynd ar nifer o ymweliadau â'r Alban a Chymru bob blwyddyn. Maen nhw hefyd yn aros ym Mhalas Holyroodhouse yn yr Alban ar gyfer wythnos o waith, ac yn cyflawni cyfres o ymrwymiadau swyddogol yng Nghymru. Roedd cost yr ymweliadau blynyddol hirach yma, sy'n berthnasol i dderbyniadau a chiniawau'n bennaf, yn dod i £30,479 yn 2006-07, ac mae wedi'i chynnwys dan wariant 'croesawu swyddogol'.

DADANSODDIAD O'R COSTAU SWYDDOGOL YN ÔL CATEGORI GWARIANT

Mae'r adrannau'r blaenorol wedi dadansoddi ac esbonio gwariant yn ôl adrannau. Mae'r tabl sy'n dilyn yn dadansoddi'r gwariant ar ddyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol yn ôl categori.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	£000oedd 2007	£000oedd 2006
Costau staff	4,800	4,374
Hyfforddiant, recriwtio a lles staff	159	109
Teithio a chynhaliaeth (yn cynnwys costau cerbydau)	221	252
Ymgynghori allanol a ffioedd proffesiynol	188	167
Croesawu swyddogol a derbyniadau	391	387
Rhoddion ac anrhegion	50	42
Gwasanaethau	162	103
Cartrefi a swyddfeydd sydd heb eu talu dan Grantiau Cymorth	417	395
Y wasg a gwasanaethau gwybodaeth	114	110
Deunydd ysgrifennu ac offer swyddfa	215	135
Cyfrifiaduron a systemau TG	195	192
Cadw tŷ a glanhau swyddfeydd	106	101
Yswiriant	46	42
Gerddi	41	41
Dibrisio	155	137
Cyfanswm	**7,260**	**6,587**

Mae esboniad o'r prif amrywiannau rhwng gwariant y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol yn dilyn.

Cyflogau

Mae'r costau staff o £4.8 miliwn yn berthnasol i'r 106.5 o staff swyddogol. Mae'n cynnwys cyflogau, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn a buddion eraill. Cyflogwyd rhagor o staff swyddogol yn ystod y flwyddyn, i atgyfnerthu'r tîm rheoli ac i weithio yn Clarence House.

Teithio a chynhaliaeth

Nid yw'r costau teithio a chynhaliaeth is yn adlewyrchu unrhyw batrwm penodol ond, yn hytrach, natur y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Ymgynghori allanol a ffioedd proffesiynol

Mae'r ffioedd ymgynghori a gwasanaethau proffesiynol yn cynnwys ffioedd cyfreithiol ac archwilio.

Croesawu swyddogol a derbyniadau

Mae croesawu swyddogol yn cynnwys derbyniadau, ciniawau canol dydd a chiniawau nos yn Clarence House, Ystafell y Berllan yn Highgrove, Holyroodhouse a nifer o leoliadau eraill. Mae'r costau'n cynnwys gwaith cynnal a chadw a rhent Ystafell y Berllan.

Cartrefi a swyddfeydd

Mae'r gwariant uwch yn adlewyrchu'r cynnydd arferol yn y gwariant yn ôl y gyllideb.

ATODIAD

PORTFFOLIOS YR UWCH REOLWYR

Syr Michael Peat
Prif Ysgrifennydd Preifat
– Cyfrifoldeb cyffredinol dros yr Aelwyd a'r Swyddfa
– Materion cyfansoddiadol, gwladwriaethol a seremonïol
– Yr Eglwys (yn cynnwys yr Eglwys Gatholig)
– Cadeirydd Sefydliad Elusennau'r Tywysog
– Dugaeth Cernyw
– Duchy Originals Limited
– Y Stadau Preifat
– Project *Accounting for Sustainability* y Tywysog

Elizabeth Buchanan
Ysgrifennydd Preifat
– Goruchwylio cyffredinol dros Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat
– Goruchwylio cyffredinol dros y rhaglen a'r dyddiadur
– Busnes cyfrifol, yn cynnwys Busnes yn y Gymuned ac *In Kind Direct*
– Amaethyddiaeth a materion gwledig
– Yr amgylchedd naturiol, yn cynnwys Rhaglen Fusnes a'r Amgylchedd y Tywysog, a physgota
– Yr Heddlu

Syr Malcolm Ross
Meistr yr Aelwyd, gyda chymorth Andrew Farquharson,
Dirprwy Feistr yr Aelwyd
– Goruchwylio cyffredinol dros dderbyniadau a chroesawu
– Staff personol a domestig
– Pob cartref a gardd
– Diogelwch a chyfrinachedd
– Cyfrifoldeb Cymdeithasol
– Duchy Home Farm

Virginia Carington
Meistr Cynorthwyol yr Aelwyd
– Y Casgliad Brenhino
– Llythyrau personol ac ymrwymiadau preifat

Leslie Ferrar
Trysorydd, gyda chymorth Gary Atack, Trysorydd Cynorthwyol a Rheolwr Ariannol,
Mimi Watts, Pennaeth Personél a Gweinyddu, a
David Hutson, Trysorydd Cynorthwyol a Rheolwr Cofnodion
– Cyfrifoldeb cyffredinol dros faterion ariannol, cyfrifyddiaeth a buddsoddi
– Personél
– Technoleg gwybodaeth
– Rhestr eiddo
– Archifau a rheoli cofnodion
– Materion yn ymwneud â chyhoeddi, masnachu, contractau a'r gyfraith
– AG Carrick
– Ysgrifennydd cwmni Duchy Originals
– Goruchwylio'r holl agweddau ariannol ar Elusennau'r Tywysog, gyda Chyfarwyddwr Elusennau'r Tywysog
– Sefydliad Elusennol UDA

Paddy Harverson
Ysgrifennydd Cyfathrebu, gyda chymorth Patrick Harrison,
Ysgrifennydd y Wasg
– Pob agwedd ar y cyfryngau ar gyfer Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysogion William a Harry a Dugaeth Cernyw

Syr Tom Shebbeare
Cyfarwyddwr Elusennau'r Tywysog, gyda chymorth Ann Chant, Dirprwy Gyfarwyddwr ac Oliver Brind, Pennaeth Datblygu
– Strategaeth a chyd-drefnu cyffredinol ar gyfer Elusennau'r Tywysog, yn cynnwys yn benodol codi arian a rheoli
– Rheolwr-gyfarwyddwr Sefydliad Elusennau'r Tywysog

Mark Leishman
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat
– Yr Alban, yn cynnwys mudiadau Tywysog Cymru yn yr Alban
– Iechyd, yn cynnwys Mudiad Tywysog Cymru er Iechyd Integredig

– Addysg, yn cynnwys Sefydliad Addysgu'r Tywysog
– Anabledd
– Yr oedrannus, yn cynnwys PRIME

Manon Williams
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat
– Cymru
– Yr amgylchedd adeiledig, yn cynnwys Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig
– Treftadaeth, yn cynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog er Adfywio
– Ysgol Lluniadu'r Tywysog
– Y Celfyddydau, yn cynnwys Celfyddyd a Busnes, Sefydliad Tywysog Cymru er Celfyddyd a Phlant
– PRIME-Cymru

Clive Alderton
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat
– Materion tramor, yn cynnwys teithiau tramor
– Datblygu rhyngwladol, yn cynnwys Fforwm Tywysog Cymru i Arweinwyr Busnesau Rhyngwladol
– Cymunedau a ffydd ethnig
– Ysgol y Tywysog er y Celfyddydau Traddodiadol

Amanda MacManus
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol (rhan amser)
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cernyw

Joy Camm
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol (rhan amser)
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cernyw

Katy Golding
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cernyw

Jamie Lowther-Pinkerton
Ysgrifennydd Preifat i Dywysog William a Thywysog Harry
– Cynnig cyngor i'r Tywysogion o ran eu gyrfaoedd, eu nawddogaethau elusennol a materion eraill, a threfnu ymrwymiadau swyddogol

Anita Kumar
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Y Gymanwlad
– Datblygu cynaliadwy yn India, yn cynnwys Sefydliad Bhumi Vardaan

Jonathan Hellewell
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Ymddiriedolaeth y Tywysog
– Gogledd Iwerddon
– Adran Gohebiaeth, dan reolaeth Claudia Holloway, Pennaeth Gohebiaeth

Arweinydd Sgwadron Jayne Casebury
Gwastrawd
– Y Lluoedd Arfog a Chynfilwyr
– Rhaglen, dyddiadur, teithio a logisteg
– Arwisgiadau
– Y Gwasanaethau Argyfwng (ac eithrio'r Heddlu)
– Chwaraeon, fforwyr ac anturiaethwyr

ELUSENNAU'R TYWYSOG

Grŵp o fudiadau 'ddim er elw' yw 'Elusennau'r Tywysog', ac mae Tywysog Cymru'n gweithredu fel ei Lywydd. Sefydlodd y Tywysog 16 o'r 18 elusen ei hun.

Y grŵp yma yw menter elusennol fwyaf y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu nifer o achosion, ac mae'n codi dros £119 miliwn y flwyddyn. Mae'r mudiadau'n gweithio mewn amryw o wahanol feysydd yn cynnwys cyfle a menter, iechyd, yr amgylchedd adeiledig, busnes cyfrifol ac addysg.

Mae'r elusennau'n adlewyrchu safbwynt arloesol Tywysog Cymru yn y tymor hir, ac maen nhw'n ceisio rhoi sylw i feysydd sydd heb gael sylw o'r blaen.

CYFLE A MENTER

The Prince's Trust
www.princes-trust.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7543 1234
The Prince's Scottish Youth Business Trust
www.psybt.org.uk Ffôn: +44 (0) 141 248 4999
Prime
www.primeinitiative.org.uk, www.primebusinessclub.com
Ffôn: +44 (0) 20 8765 7833
Prime-Cymru
www.prime-cymru.co.uk Ffôn: +44 (0) 1550 721 813

ADDYSG

The Prince's Drawing School
www.princesdrawingschool.org Ffôn: +44 (0) 20 7613 8568
The Prince's School of Traditional Arts
www.princesschooltraditionalarts.org Ffôn: +44 (0) 20 7613 8500
The Prince's Teaching Institute (Prifysgol Caergrawnt)
www.princes-ti.org Ffôn: +44 (0) 20 3170 7926

IECHYD

The Prince's Foundation for Integrated Health
www.fih.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 3119 3100

YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

The Prince's Foundation for the Built Environment
www.princes-foundation.org Ffôn: +44 (0) 20 7613 8500
The Prince's Regeneration Trust
www.princes-regeneration.org Ffôn: +44 (0) 20 7462 6440
Turquioise Mountain Foundation
www.turquoisemountain.org Ffôn: +44 (0) 1764 650 888

BUSNES CYFRIFOL A'R AMGYLCHEDD NATURIOL

Business in the Community
www.bitc.org.uk Ffôn: +44 (0) 870 600 2482
The Prince of Wales's Business & the Environment Programme
www.cpi.cam.ac.uk/bep Ffôn: +44 (0) 1223 342 100
Scottish Business in the Community
www.sbcscot.com Ffôn: +44 (0) 131 451 1100
The Prince of Wales International Business Leaders Forum
www.iblf.org Ffôn: +44 (0) 20 7467 3600
In Kind Direct
www.inkinddirect.org Ffôn: +44 (0) 20 7714 3930

Y CELFYDDYDAU

Arts & Business
www.AandB.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7378 8143
The Prince of Wales Arts & Kids Foundation
www.artsandkids.orguk Ffôn: +44 (0) 20 7940 6692